# Y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cynulliad yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Taliadau 19-20 Mehefin 2014

Annwyl Aelod Cynulliad,

Cynhaliodd y Bwrdd Taliadau ei drydydd cyfarfod yn 2014 ar 19 a 20 Mehefin. Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y gwaith hwn ac i dynnu eich sylw at ddau ymgynghoriad sydd ar y gweill sy'n ymwneud â Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a newidiadau i gynllun pensiwn yr Aelodau.

Trafododd y Bwrdd lythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad a chrynodeb o'r ymatebion i'n harolwg o Aelodau. Buom hefyd yn trafod yr adborth o gyfarfodydd y grwpiau sy'n cynrychioli'r Aelodau a'u staff cymorth.

Roeddem yn awyddus i roi gwybod ichi am ein cynigion cyn gynted ag y bo modd a bydd rhagor o fanylion ar gael mewn dwy ddogfen y byddwn yn eu cyhoeddi yn yr ychydig wythnosau nesaf. Bydd un ddogfen yn ymwneud â phensiynau, a bydd y llall yn trafod materion sy'n ymwneud â staff cymorth yr Aelodau. Bydd y dogfennau ymgynghori hyn yn gofyn eich barn am y meysydd a ganlyn:

## Cyflwyno swydd uwch-gynghorydd Aelodau

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i Aelodau'r Pumed Cynulliad, rydym yn cynnig rhoi cyfle i bob Aelod Cynulliad gyflogi **uwch-gynghorydd** os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Buom yn ymgynghori ar syniad tebyg yn 2012-13 ond nid oedd y pleidiau yn llwyr o'i blaid. Rydym yn gwybod, fodd bynnag, bod llawer o'r Aelodau yn cefnogi'r syniad ac mae ein cynnig newydd wedi'i ddiwygio i gymryd i ystyriaeth rhai o'r gwrthwynebiadau a glywsom y llynedd. Ein cynnig diwygiedig ar gyfer y rôl hon yw:

- byddai cyflog uwch-gynghorwyr yn cyfateb i'r staff Cymorth Grŵp Ychwanegol presennol, sef £31,016 - £37,885 ar hyn o bryd.
- byddai'r lwfans staffio yn cael ei gynyddu i lefel ddigonol fel y gellir cyflogi uwch-gynghorydd a dau aelod arall o staff cyfwerth ag amser llawn (hynny yw ar y graddfeydd cyflog presennol, sef hyd at £94,000);

- byddai'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer uwch-gynghorwyr yn cael ei lunio o'r darnau enghreifftiol sydd yn yr atodiad i'r llythyr hwn;
- byddai'r broses o ddethol a phenodi uwch-gynghorwyr yr un fath ag ar gyfer unrhyw swydd staff cymorth arall;
- Byddai Aelodau nad oeddent yn dymuno defnyddio eu lwfans staffio i benodi uwch-gynghorwyr yn rhydd i ddefnyddio'r arian mewn ffyrdd eraill ee penodi staff dros dro neu i ategu eu Cronfa Polisi ac Ymchwil.

**Y Cynllun Prentisiaeth**

Yn ein trafodaethau ag arweinwyr y pleidiau ac eraill, cawsom gryn gefnogaeth i gyflwyno cynllun prentisiaeth sy'n rhoi cyfle i bobl ifanc weithio i Aelodau Cynulliad unigol neu i bleidiau gwleidyddol. Ni fu'r Bwrdd yn trafod unrhyw gynnig manwl yr wythnos diwethaf, ond roedd yn frwd dros egwyddor cynllun o'r fath. Roeddem yn cytuno, pe bai cynllun o'r fath yn cael ei gyflwyno, y dylid ei reoli gan Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau bod y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn cael cymorth a hyfforddiant proffesiynol priodol. Byddwn yn ysgrifennu at y Comisiwn ar wahân i drafod sut y gellid cyflwyno cynllun o'r fath.

**Y Gronfa Polisi ac Ymchwil**

Cawsom adborth cadarnhaol gan Gomisiwn y Cynulliad a chan yr Aelodau sydd wedi defnyddio'r Gronfa Polisi ac Ymchwil. Rydym o'r farn bod y gronfa'n ddefnyddiol i Aelodau Cynulliad o bob plaid ddwyn y Llywodraeth i gyfrif, ac rydym am ei datblygu ymhellach. O ganlyniad, rydym yn bwriadu cynyddu maint y gronfa, ac ehangu ei chylch gwaith i gynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu'n lleol. Yn benodol, ein syniad yw y gallai'r arian gael ei ddefnyddio hefyd – gyda'r gofal priodol - i helpu i gynyddu dealltwriaeth o'r Cynulliad ac i gynnwys, dyweder, ysgolion neu rannau penodol o'r gymuned leol yn ei waith.

Yn ein hymgynghoriad byddwn yn ceisio'ch barn ynghylch a ellid defnyddio cyllid o'r fath i wella cyfathrebu ac ymgysylltu lleol yng ngwaith y Cynulliad, a sut y gellid gwneud hynny.

**Cymorth i grwpiau**

Mae'r Penderfyniad presennol yn darparu ar gyfer rhoi cymorth ariannol i'r holl grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad, yn ôl nifer yr Aelodau sydd ganddynt. Cyn

dod i unrhyw gasgliadau ynghylch ariannu cymorth i grwpiau yn y Pumed Cynulliad, byddwn yn gofyn eich barn am y trefniadau presennol ac a oes unrhyw ystyriaethau penodol y dylem eu cymryd i ystyriaeth.

**Pensiynau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad a diswyddo**

Hefyd, roedd cynrychiolwyr y staff cymorth wedi gofyn a allai staff sy'n colli eu swyddi pan fydd eu Haelod Cynulliad yn gadael ildio'u hawl i dâl diswyddo, a chael eu penodi yn lle hynny i swydd newydd gydag Aelod newydd. Yn ôl yr hyn maent yn ei gynnig ni fyddai angen i'r staff cymorth fynd drwy broses recriwtio agored a byddai mantais arall hefyd oherwydd byddai'r ddau benodiad yn cyfrif tuag at eu cyfnod o wasanaeth di-dor. Byddai'r trethdalwr yn elwa oherwydd ni fyddai taliadau diswyddo yn cael eu gwneud i staff sy'n cael eu hail-gyflogi ar eu hunion i swydd debyg gan Aelod newydd.

Rydym yn croesawu'r syniad hwn a hoffem ei weld yn gweithio. Yn anffodus, y cyngor cyfreithiol a gawsom yw ei bod yn annhebygol iawn y byddwn yn gallu cyflwyno'r newid. Byddwn yn rhannu'r cyngor hwnnw gyda'r grwpiau cyfeirio a sefydlwyd o blith Aelodau a staff cymorth, a byddwn yn trafod y mater ymhellach gyda'n cyrff cyfatebol yn San Steffan, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn dod o hyd i ateb.

Yn fras, mae'r trefniadau pensiwn sydd ar gael i staff cymorth ar yr un lefel â rhai Seneddau eraill. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cais am daliad 'marwolaeth mewn swydd' i ddarparu ar gyfer teuluoedd staff cymorth pe byddai trasiedi'n digwydd. Mae angen gwneud rhagor o waith ar hyn, ond byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno darpariaeth marwolaeth mewn swydd ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, sydd gyfwerth â dwywaith eu cyflog.

Cawsom hefyd gais i gynyddu'r taliadau diswyddo ar gyfer staff cymorth o un a hanner yr isafswm statudol i ddwywaith yr isafswm statudol. O ystyried y sefyllfa a ddisgrifir uchod mewn perthynas â diswyddo a pharhad gwasanaeth, a'r ffaith y bydd llawer o staff cymorth yn cael rhybudd hir o ddiswyddo (ee Aelod Cynulliad nad yw’n sefyll i'w ailethol), nid yw'r Bwrdd yn bwriadu gwneud unrhyw newid i'r telerau presennol, sydd eisoes yn uwch na'r gofynion statudol.

**Contract safonol**

Credwn fod y contract safonol o fudd i gyflogwyr a chyflogeion, ac y dylai aros fel y mae. Mae'r unig newid a gynigir gennym i'r contract safonol yn ymwneud â'r cyfnod o rybudd sy'n ofynnol cyn diswyddo/ymddiswyddo. Ar hyn o bryd, wythnos o rybudd sydd angen ei roi yn 12 mis cyntaf y swydd, a phedair wythnos ar ôl 12 mis. Rydym yn awgrymu bod staff yn gorfod rhoi wythnos o rybudd yn nhri mis cyntaf y swydd a phedair wythnos o rybudd ar ôl hynny.

Cafodd y Bwrdd gais i gynyddu'r gwyliau blynyddol ar gyfer staff o'r lefel bresennol o 31 diwrnod a gwyliau cyhoeddus. Mae'r Bwrdd o'r farn bod 31 diwrnod yn hael ac nid yw'n bwriadu newid hynny.

**Cynllun pensiwn yr Aelodau**

Trafododd y Bwrdd yr ymatebion i'n hymgynghoriad diweddar ar bensiynau ac mae'n ddiolchgar i'r unigolion a'r grwpiau hynny a roddodd o'u hamser i ymateb. Y cam nesaf yw cyhoeddi dogfen ymgynghorol arall – cyn diwedd y tymor – a fydd yn nodi'n fanylach y cynllun pensiwn arfaethedig newydd ar gyfer Aelodau. Ymarfer ymgynghori cyhoeddus fydd hwn, ond rydym yn gobeithio y bydd yr Aelodau presennol hefyd yn ymateb.

**Unrhyw fater arall**

Cytunodd y Bwrdd ar ffurf ei adroddiad blynyddol, a chafodd hefyd sesiwn friffio ar ei rwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Ail-bwysleisiwyd ein hymrwymiad i weithio mewn dull mor agored a thryloyw â phosibl, ac yn y dyfodol byddwn yn dweud wrth ymgynghoreion ein bod yn bwriadu, lle bod hynny'n bosibl, cyhoeddi ymatebion ffurfiol i'r ymgynghoriad ar ein gwefan (fel y mae IPSA wedi'i wneud). Yn yr ysbryd hwnnw rwyf hefyd yn bwriadu cyhoeddi'r llythyr hwn (a fersiynau eraill yn y dyfodol) ar ein gwefan, cyn gynted ag y bydd yr Aelodau wedi cael cyfle i'w ddarllen.

Rwy'n barod iawn i gwrdd ag Aelodau Cynulliad unigol neu grwpiau plaid i drafod unrhyw agwedd ar waith y Bwrdd. Os hoffech gwrdd â mi, cysylltwch â Gareth Price, Clerc y Bwrdd taliadau@cymru.gov.uk i wneud trefniadau.



**Sandy Blair CBE**
**Cadeirydd / Chair**
**Y Bwrdd Taliadau / Remuneration Board**